

Mark Drakeford AC  
Y Prif Weinidog  
Llywodraeth Cymru

6 Chwefror 2019

Annwyl Mark

### **Craffu ar ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Brexit**

Atodaf gopi o'n hadroddiad, *Craffu ar reoliadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: Adroddiad cynnydd*, a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol heddiw.

Mae ein hadroddiad yn gofyn am eglurhad brys ar y dull y mae Llywodraeth Cymru yn ei gymryd ar hyn o bryd i ganiatáu i reoliadau gael eu gwneud mewn meysydd datganoledig gan Lywodraeth y DU a'r gwrthddywediad amlwg o ran y sefyllfa a nodir yn y *Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin*.

Hoffem hefyd weld gwelliant sylweddol yn ansawdd y datganiadau ysgrifenedig sy'n cael eu paratoi o dan Reol Sefydlog 30C. Byddem yn croesawu eich sylwadau ar ein casgliad y dylai pob Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol sy'n gysylltiedig â Brexit fod yn ddarostyngedig i gynnig cydsyniad a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru.

Yn fwy cyffredinol, fel rhan o'n hadolygiad, fe wnaethom ystyried eich llythyr dyddiedig 11 Ionawr 2019 at y Llywydd. Mae gennym nifer o bryderon ynglŷn â'r llythyr hwn.



Rydym yn derbyn bod Brexit yn arwain at yr angen i wneud penderfyniadau anodd ond credwn fod Llywodraeth Cymru wedi dod yn or-ddibynnol ar Lywodraeth y DU i ddeddfu ar ei rhan. Er ein bod yn derbyn mai'r bwriad yw peidio â rhwystro na chyfyngu ar rôl y Cynulliad fel deddfwrfa, mae hynny'n anffodus yn dod yn realiti. Fel y mae ein hadroddiad a gohebiaeth arall yn amlygu, un o ganlyniadau anfwriadol y dull hwn oedd bod Gweinidogion Cymru yn caniatáu gostyngiad yng nghymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn eich llythyr, rydych yn tynnu sylw at raglen deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Fel yr ydym yn amlygu yn ein hadroddiad, *Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth*, nododd Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2018 fod angen iddi fod yn hyblyg ac addasu ei rhaglen deddfwriaethol oherwydd Brexit, gan nodi bod y pum Bil a gyflwynwyd yn:

" caniatáu rhywfaint o slac inni er mwyn gallu rhyddhau adnoddau i ymdrin ag unrhyw Filiau, neu unrhyw deddfwriaeth arall, y bydd eu hangen o ganlyniad i Brexit."

Am resymau nad ydynt yn glir, ymddengys y bu gweithredu croes i'r dull synhwyrol a phragmatig hwn: lle'r oedd amser yn cael ei gynnwys yn wreiddiol yn y broses i ymdrin â goblygiadau deddfwriaethol Brexit o fewn fframwaith datganoledig, mae'r amser hwnnw wedi peidio â bod ar gael.

Mae'r sylw yn eich llythyr wedi cynyddu ein pryder na fyddai ond yn bosibl pasio'r Biliau Brexit angenrheidiol mewn pryd trwy ddilyn gweithdrefn gyflym a fyddai'n cyfyngu ar y gwaith o graffu arnynt gan y Cynulliad Cenedlaethol. Eto, mae'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru o ran caniatáu i Lywodraeth y DU wneud deddfwriaeth sylfaenol ar ei rhan, mewn gwirionedd yn cynnig //ai o waith craffu i'r Cynulliad Cenedlaethol na'r weithdrefn gyflym. Byddai'r weithdrefn hon, o leiaf, wedi caniatáu dadl ar egwyddorion cyffredinol Biliau a chyfnodau diwygio dilynol, nad ydynt ar gael drwy'r broses Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29.

At hynny, mater i'r Cynulliad Cenedlaethol fel y deddfwrfa yw penderfynu sut y mae'n defnyddio amser y Cyfarfod Llawn i graffu ar Lywodraeth Cymru fel y weithrediaeth, yn hytrach na Llywodraeth Cymru ei hun.



Fel y dywed eich llythyr, mae'r amgylchiadau hyn yn eithriadol ond mae'n anffodus bod rôl y Cynulliad Cenedlaethol o ran llunio goblygiadau deddfwriaethol yr amgylchiadau hyn wedi ei hymyleiddio o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, y Cwnsler Cyffredinol, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

Edrychaf ymlaen at gael ymateb cyn gynted â phosibl.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

**Mick Antoniw**

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

